# Y LLINYN ARIAN

## Cylchgrawn Capel Salem,Caernarfon. Ebrill 2022



Yna tywalltodd ddŵr i'r badell, a dechreuodd olchi traed y disgyblion, a'u sychu â'r tywel oedd am ei ganol. Daeth at Simon Pedr yn ei dro, ac meddai ef wrtho, "Arglwydd, a wyt ti am olchi fy nhraed i?" Atebodd Iesu ef: "Ni wyddost ti ar hyn o bryd beth yr wyf fi am ei wneud, ond fe ddoi i wybod ar ôl hyn." Meddai Pedr wrtho, "Ni chei di olchi fy nhraed i byth." Ioan 13

Erbyn hyn yr oedd hi tua hanner dydd. Daeth tywyllwch dros yr holl wlad hyd dri o'r gloch y prynhawn, a'r haul wedi diffodd. Rhwygwyd llen y deml yn ei chanol. Llefodd Iesu â llef uchel, "O Dad, i'th ddwylo di yr wyf yn cyflwyno fy ysbryd." A chan ddweud hyn bu farw.





"Pam yr ydych yn ceisio ymhlith y meirw yr hwn sy'n fyw? Nid yw ef yma; y mae wedi ei gyfodi. Cofiwch fel y llefarodd wrthych tra oedd eto yng Ngalilea, gan ddweud ei bod yn rhaid i Fab y Dyn gael ei draddodi i ddwylo pechaduriaid, a'i groeshoelio, a'r trydydd dydd atgyfodi." Luc 24

**OEDFAON Y PASG Yn y Capel ac ar Zoom )**

**Nos Iau Cablyd am 7 o'r gloch : Eglwys Santes Fair**
**Bore Gwener Groglith am 10 o'r goch—Oedfa Gymun yn Salem.**
**Nos Wener y Groglith am 7 : 'Roeddem ninnau yno '**
**Bore Sul y Pasg am 10 : Oedfa Gymun -yn yr oedfa derbynnir pedwar o'n pobol ifanc yn gyflawn aelodau o Eglwys Crist .**

***Bydd y pedwar yn gyfrifol am oedfa Nos Wener y Groglith am 7 yn Salem .***

### Gair gan y Gweinidog



Dwy flynnedd wedi cychwyn y Pandemig mae yna obaith am ddathlu'r Pasg unwaith eto yn Salem. Bu dathlu yn 2020 a 2021 – ond dathlu tra gwahanol. Roedd Pasg 2020 yn arbennig yn anodd, a ninnau ond ychydig wythnosau fewn i'r pendemig. Doedd dim ymdeimlad o 'ddathlu', a ninnau yn ymwybodol o gymaint o bobl oedd yn dioddef o effeithiau'r feirws cyn dyfodiad y brechlyn. Roeddem yn ymwybodol hefyd fod gymaint o'n gweithwyr allweddol dan bwysau aruthrol. Â rheolau'r cyfnod clo mor llym, roeddem hefyd yn gwybod fod llawer o bobl yn unig ac roedd hynny yn bryder mawr. Erbyn Pasg 2021, roedd y sefyllfa wedi gwella fymryn. Daeth zoom yn gyfrwng i'n galluogi i gyd-addoli. Diolch hefyd i blant yr Ysgol Sul a fu'n brysur yn ystod y ddwy flynnedd yn ffilmio eu hunain ac yn rhannu fideos. Roedd hyn wirioneddol yn codi calon gymaint o'n haelodau – diolch yn fawr i chi blant a ieuenctid Salem – ryda chi'n wych!

Eleni – bydd oedfa Pasg yn Salem a dros zoom. Er ein bod ar wahan – rydym yn parhau yn un gynulleidfa a'r hyn sy'n bwysig yw rhoi'r cyfle i bobl addoli mewn modd sy'n gwneud iddynt deimlo yn gyfforddus; boed hynny yn y capel neu dros zoom. Diolch am dechnoleg i ganiatau i hyn ddigwydd.

Ond doedd dim byd cyfforddus am y Pasg hwnnw pan gafodd Iesu ei groeshoelio. Doedd dim yn gyfforddus i Iesu na'i ddisgyblion a'i ddilynwyr. Roedd tensiwn a phryder yn yr aer ac ysbryd casineb tuag at Iesu. A thrwy'r cyfan oll, roedd Iesu yn dangos ysbryd gwahanol i ysbryd y byd o'i gwmpas. Dangosodd ysbryd gwyleidd-dra wrth farchogaeth i Jerwsalem ar gefn asyn a drwy blygu lawr i olchi traed ei ddisgyblion yn ystod y swper olaf. Yn y deml, roedd ysbryd cyfiawnder wedi peri iddo wylltio o ganlyniad i'r twyllo a'r barusrwydd yn y deml. Dangosodd ysbryd maddeuant ac yntau'n dioddef ar y groes, a dangosodd ysbryd gofal wrth ofyn i Ioan warchod ei fam. Drwy'r wythnos fawr ac wythnos y Pasg, cawn gyfle i fyfyrio ar gariad ac aberth ein Harglwydd Iesu – yn cymryd holl boenau'r byd arno'i hun er mwyn i ni brofi rhyddid a gobaith di-fesur. Ffrwydrodd y gobaith hwnnw ar fore Sul y Pasg a'n braint ni heddiw yw cofio a dathlu. Cofio am ddioddefaint Nos Iau Cablyd a Gwener y Groglith a dathlu buddugoliaeth Sul y Pasg. Ar y bore Sul y Pasg hwnnw profodd Iesu fod goleuni yn drech na'r tywyllwch a bywyd yn drech na marwolaeth. Yn hyn mae ein gobaith – dathlwn yn llawen eleni!



***Gorfoleddwn Iesu mawr am y dydd y torrodd gwawr,***
***Bywyd newydd ddaeth i ni wedi concwest Calfari***. (D.Glyn Lewis)

**HUNODD.**

Bu farw **Aaron Davies,** 40 Y Glyn ar 31 Rhagfyr 2021. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yng Nghrematoriwm, Bangor, ar 20 Ionawr 2022. Bu Aaron farw ar ôl treulio dros flwyddyn yn Ysbytai Gwynedd, Eryri, Walton, Lerpwl a Hospis Llandudno. Yn y gwasnaeth myfyriwyd ar y geiriau 'Pryderus, Penderfynnol a Pharod'. Pryderus am maI dyna brofiad y teulu dros y cyfnod bu Aaron yn sal. Penderfynnol; os oedd Aaron wedi rhoi ei feddwl ar unrhywbeth anodd ei newid. Parod;oherwydd ei barodrwydd i helpu cynnifer. Gwelir enw Aaron gyntaf yn Adroddiad Salem yn 1978 yn rhestr Ysgol Sul Dosbarth y diweddar Sian Vaughan Wilkinson a death Aaron yn aelod cyflawn yn 1990 yr un pryd a'i chwaer Angharad. Roedd yn actor da a deallaf pan gafodd fod yn Joseff roedd fel ennill yr Oscar!.Talwyd teyrnged iddo yn y gwasanaeth gan ei ffrind Andy Davies a darllennodd Angharad gerdd o'i gwaith ei hun. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i fam Mrs Menai Davies, a'i chwiroydd Eira ac Angharad a'u teuluoedd.

Anaml y digwydd dwy brofedigaeth mor agos o fewn yr un teulu, ond dyna ddigwyddodd yn hanes **Mr Elwyn a Mrs Myfanwy Parry,** Roma , Ffordd Bethel. Bu Mr Parry farw ar 17 Chwefror a chynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yng nghapel Gorffwys , Ffordd y De, Caernarfon ar 26ain o Chwefror. Bu farw Mrs Parry ar y 7ed o Fawrth a'r gwasanaeth angladdol yng nghapel Gorffwys , Ffordd y De, Caernarfon ar y 12ed o Fawrth . Yn y gwasanaethau rhoddodd Dr Gwilym Sion deyrnged i'w Daid a'i Nain gan gyfeirio at ofal, caredigrwydd, addfwynder a chariad y ddau. I bawb brofodd groeso aelwyd 'Roma', gwyddoch pa mor gynnes, croesgawgar a gwerthfawrogol oedd. Cydymdeimlwn yn ddwys gyda Miriam a'i phriod John a holl aelodau'r teulu.

**COLLI PERTHYNAS**

Meddyliwn am :

Mr Guto a Esyllt Penri Bebb , Cynfal, Lôn Ddewi ym marwolaeth tad Esyllt .
Mrs Mair Price. Gwelafon , Ael y Garth yn colli ei brawd .
Mr Bill Williams , Brig yr Allt , Cae Gwyn yn colli ei fam . Mrs Ceinwen Parry, 21 Cae Berllan ym marwolaeth ei hwyres.

Mrs Nancy Griffiths 30 Bron y Garth yn colli ei phriod John; tad Brenda , Marian a Wendy a brawd i Mrs Mair Jones, 1 Y Glyn . Cynhaliwyd angladd Mr John Griffiths yng nghapel Salem, bore Llun 7ed o Fawrth . Rhoddwyd teyrngedau gan Kevin Parry i Taid , Wendy Griffiths i'w thad , Moli a Noah i'w Taid hŷn a channwyd 'Anfonaf Angel' gan Lois Ana Parry

'Rho im yr hedd na ŵyr y byd amdano,
hedd, nefol hedd, a ddaeth drwy ddwyfol loes,
pan fyddo'r don ar f'enaid gwan yn curo
mae'n dawel gyda'r Iesu wrth y groes .



**CYFNOD YN YR YSBYTY**

Meddyliwn am rai o'n cydaelodau sydd wedi cael cyfnod mewn Ysbyty :
Mrs Edwina Parry ,Mrs Jean Owen ,Mr Dilwyn Hughes ,Mrs Vera Prytherch a Mrs Mary Christine Jones

Meddyliwn am ein haelodau sydd **MEWN CARTREFI PRESWYL**
Cartref Marbryn Caernarfon : Mr Gareth Lee.
Cartef Golwg y Wyddfa, Llanberis : Mrs Gweneirys Jones.
Cyflwynwn ein cyfarchion cynhesaf i chi ac i'r rhai sy'n gaeth i'w cartref ac yn derbyn gofal arbennig .

**BEDYDD .**

Bore Sul 20 Mawrth bedyddwiyd **Lleu Rhys Howel**, mab Llion a Bethan a brawd Elsi Mai a Begw Fflur, Tŷ Capel, Salem. Bedyddiwyd Lleu gan ei ewythr; Parch Dylan Rhys Parry, gweinidog Tabernacl, Penybont ar Ogwr a Phorthcawl. Ceisiwyd trefnu'r bedydd dwy waith o'r blaen ond oherwydd Covid rhaid oedd gohirio . Braf oedd cael croesawu Dylan nol i Salem i weinyddu'r sacrament .



Teimlwn yn arw dros deulu **Greta Alaw** , merch Dylan a Sioned Owen , Y Berllan , Bontewydd sydd wedi gorfod gohirio'r bedydd am y trydydd tro mis diwethaf oherwydd Covid. Gobeithiwn na fydd dim rhwystrau tro nesaf .

**DIOLCH**

Yng nghyfarfod Pwyllgor Gwaith yn Ionawr derbyniwyd llythyr gan Mr John Grisdale yn hysbysu'r eglwys o'i ddymuniad ar ddiwedd 2021 i'w ryddhau fel swyddog, diacon, ymddiriedolwr a'r pwyllgorau y perthynai iddynt . Derbyniwyd ebost hefyd gan Mrs Iola Grisdale yn ymddiswyddo o Bwyllgor Gwaith Salem. Diolchwn i John a Iola am yr holl waith wnaed ganddynt yn Salem ac er fod y ddau'n rhyddhau o'u cyfrifoldebau mynegwyd eu parodrwydd i gynorthwyo yng ngweithgareddau eglwys Salem.

**Cysylltodd Golygydd Papur Dre'; Glyn Tomos gyda'r Gweinidog ( Ron Williams ) yn gofyn iddo ateb pedwar cwestiwn . Dyma'i ymateb :**

1**. Be ydy'r her a'r cyfleoedd sydd wedi bod o ran gwaith y Capel dros y degawd diwethaf?**

I mi'n bersonol mae her y ddegawd olaf yr un fath â'r heriau ers fy ordeinio a sefydlu yn was i Iesu Grist yn 1971. Atgoffaf fy hun yn gyson o'r addewidion wnes yn yr oedfa honno yng nghapel Bethania, Cwmafan. Dibynnaf yn llwyr ar ras a maddeuant Duw a chymorth yr Ysbryd Glân i'm cynorthwyo gyda'r gwaith. Mae gan pob degawd ei stori ei hun ac o'u cymharu bydd llawer yn debyg ond weithiau bydd y stori'n wahanol . Ers dathlu'r degawd olaf yn Salem gwelwyd dau o ieuenctid yr eglwys : Dylan Rhys Parry a Mererid Mair yn cael eu hordeinio ; Dylan yn weinidog ym Menybont ar Ogwr a Mererid yn gyd weinidog yn Salem.

2**. Pa effaith mae Covid wedi ei gael ar waith y Capel a sut ydych yn gweld y sefyllfa gyda'r cyfyngiadau yn cael eu llacio?**

Bu'r feirws yn gyfrifol i amharu ar holl weithgareddau'r eglwys . Daeth pob gweithgaredd i ben; nid oedd yn bosib cyfarfod yn y capel na'r festri. Ein blaenoriaeth oedd cadw cysylltiad gyda'r aelodau a chynnal bywyd ysbrydol yr eglwys a bod yn glust mewn cyfnod hynod heriol. Cyn i Zoom ddod yn air allweddol i ni yn Salem, darparwyd oedfa'r Sul ar ebost ac ar babur. Ysgrifennais mwy o lythyrau a sgwrsio dros y ffôn nag mewn unrhyw gyfnod o'm gweinidogaeth cyn hyn. Wrth i ni ddechrau defnyddio zoom, agorwyd drws newydd a daeth cyfle i ail gydio mewn nifer o weithgareddau. Profiad rhyfedd ar y dechrau oedd gweld pobol mewn sgwar fechan mewn gwasanaeth, ysgol Sul a phwyllgor! Dyledus ydwyf i Mererid ac i fy wyres Seren Lois am drefnu zoom. I chi sy'n fy 'nabod, gwyddoch mae elfennol iawn yw fy ngallu cyfrifiadurol! Hefyd crewyd grwp Whats App ar gyfer aelodau'r capel oedd yn dymuno bod yn rhan ohonno a llwyddwyd i gadw cysylltiad a chynnal ein gilydd mewn ffordd wahanol arall! Rydym yn ôl yn addoli yn y capel ers tro bellach, ond mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarlleddu yn fyw dros zoom bob Sul i'r rhai hynny sy'n teimlo'n fwy cyfforddus yn cysylltu yn rhithiol.

Pan laciwyd rhai rheolau a'r tywydd yn braf, cafwyd ail gydio yng nghyfarfodydd Taro Mewn neu Taro Allan fel y'i gelwid gan rhai! Golygfa ryfedd i ddechrau oedd y cadeiriau tu allan yn iard gefn y capel yn lle ceir yn parcio, ond roedd pawb mor werthfawrogol o gael cyfarfod unwaith eto.



Erbyn hyn, mae Taro Fewn yn ôl yn y festri gan sicrhau awyru digonnol a chadw pellter. Mor braf hefyd oedd cael ail gychwyn ymweld ag aelodau yn yr ardd neu wrth ddrws yr aelwyd.
Gyda'r cyfyngiadau'n cael eu llacio, wynebwn gyfnod gwahanol eto. Yr hyn fydd yn anodd mae'n debyg wrth i gyfyngiadau lacio yn y gymuned yw fod rhai aelodau yn parhau i werthfawrogi cadw pellter a gwisgo mwgwd, tra fod eraill yn awyddus i'w hepgor. Mae'r Ysgol Sul yn gyffrous am gael ail gychwyn cyfarfod wyneb yn wyneb ar ôl hanner tymor ar ôl cyfarfod yn rheolaidd dros zoom.

3**. O ran y 10 mlynedd nesaf be ydy'r heriau sydd yn gwynebu addoldai y dref a Salem yn arbennig. A yw yn anorfod y gwelwn enwadau y dref yn gorfod meddwl o ddifri am rhannu adeiladau ar gyfer addoli?**

Yr un her sy'n wynebu addoldai y dref a Salem fel pob tref a phentref arall. Mae capeli'n cau am fod eu cynnal yn ormod o gyfrifoldeb i'r aelodau. Pan fydd hynny'n digwydd, clywir lleisiau'n dweud, "dim ond waliau neu furiau sydd gennych". Mae'n amser atgoffa'r cyfryw rai fod yna lawer mwy i unrhyw achos - personnau, annwyliaid, gweithgarwch, addoliad a chymdeithas i enwi dim ond rhai . Mae i fyny i bobol Caernarfon os ydynt am drosglwyddo i'r genhedlaeth nesaf dref ddi gapel/ eglwys.
Am ail ran eich cwestiwn Mr Golygydd, dwn i ddim ar ba blaned ydy chi'n byw?! Er fy holl ymdrechion mewn sawl cylch i annog closio ac uno cynulleidfaoedd, â'm pobol yn barod i ddod efo mi ar y daith, os nad yw gynulleidfaoedd eraill yn dangos yr un awydd, yna, yn anffodus, nid yw'n bosib gweithredu.
Pan oedd Canon Roger Donaldson yn gweinidogaethu yn y dref, ac eglwys Santes Fair yn dathlu saith canmlynedd, caniataodd i mi weinyddu'r Cymun nos Iau Cablyd yn yr Eglwys. (yn arferol ni chaniateir i weinidog anghydffurfiol weinyddu'r cymun yn yr Eglwys Anglicanaidd). Cymerodd saith canrif i hynny ddigwydd! Dwn i ddim a gymer yr un faint o amser i uno cynulleidfaoedd ac uno'r enwadau - gobeithio ddim!

************




Mae Hafan yn brosiect newydd yn y dref . Bydd Hafan yn brosiect sydd yn cynnig amser , pob wythnos , i bobl ddod i ymdawelu, i fyrfyrio, i oleuo cannwyll, i ddod o hyd i ryw dawelwch o brysurdeb bywyd, i gael clust i wrnado, i gael cwmni eraill . Am fanylion pellach, cysylltwch â Mererid .

## PENBLWYDD CAPEL SALEM . 1862—2022




Fel arfer dathlwn benblwydd yr achos ar yr ail Sul yn mis Mai sef 8 Mai eleni. Daathlwn drwy gynnal ein Gŵyl Bregethu. Gwahoddir Gweinidogion o bell ac agos i arwain ein haddoliad. Eleni edrychwn ymlaen i groesawu ysgrifennydd cyffredinol UAC: Parch Dyfrig Rees atom.Bydd yr oedfa yn y capel ac ar Zoom.

Hefyd ar benblwydd yr achos gwneir casgliad arbennig at **Y GWELLIANNAU**. Mae Casgliad Y GWELLIANNAU a'r DIOLCHGARWCH ddau gasgliad arbennig a wneir yn ystod y flwyddyn. Nid oes angen ein hatgoffa fod costau cynnal pob dim yn cynyddu ac nid yw'r ddwy flynedd diwethaf wedi bod yn hawdd. Diolch am y gofal ddangoswyd gan nifer o'r aelodau i sicrhau fod eu cyfraniadau yn cyrraedd ein trysorydd. Gwerthfawrogwn yn ddiffuant yr ymdrech a ddangoswyd gennych . Yn y gorffennol rhoddwyd amlen arbennig ar gyfer casgliad y Gwelliannau ond fel llynedd ni fyddwn yn rhannu amlen i bob aelod eleni, ond os dymunwch amlen cysylltwch â'r trysorydd. Croesawir yn fawr y newid patrwm o gyfrannu sy'n digwydd yn yr eglwys drwy drosgwlyddiad banc gan sylweddoli nad yw hyn yn ymarferol i bawb. Ond gofynnwn i chi ystyried gwneud hynny os yw'n bosib gan fod ffioedd bancio yn golygu fod cost ychwanegol i gyfrannu drwy arian parod neu siec.

*Os ydych am gyfrannu at y capel, gellir gwneud hynny drwy drosglwyddiad banc gan ddefnyddio'r manylion isod:

**Côd:40-16-02 Rhif y cyfri:70724556.** Enw'r Cyfri: Salem Congregtional Chapel Cofiwch **nodi eich enw a rhif aelodaeth fel cyfeirnod os gwelwch yn dda. Nodwch hefyd : CASGLIAD GWELLIANNAU neu OFFRWM WYTHNOSOL.**

gellir cyfrannu hefyd drwy anfon siec i'r trysorydd: Mr Alun Jones, Gwyddfan, 22 Llys Meirion, Caernarfon LL55 1LE . Gwnewch y siec yn daladwy i: **CAPEL SALEM CAERNARFON** os gwelwch yn dda.




**MANYLION CYSYLLTU ZOOM : 89967405728 Cyfrinair 1588**

**SAFWE CAPEL SALEM : www.capelsalemcaernarfon.com**






Un o'r elusennau sy'n perthyn i DEC yw Cymorth Cristnogol Mae'r ymateb mewn rhoddion a chynnig cartrefi mewn argyfwng yn anghygoel . Yng nghanol yr uffern sy'n Wcrain heddiw diolchwn am yr ymateb. Mae pob cyfraniad ac ymdrech i'w groesawu .



Derbyniodd y Gweinidog neges destun yn ddiweddar :' Helo Mr Williams, gobeithio eich bod yn cadw'n iawn . Dwi yn trio hel arian i Ukraine drwy raffls cacennau dros y penwythnos . Ydi Salem yn hel arian neu petha' iddyn nhw? Fyswn i yn licio cyfrannu tuag atyn nhw'. Eglurwyd fod manylion cyfrannu drwy C C wedi ei roi i'r aelodau.Ymhen dyddiau derbyniais neges: Mae gen i gyfraniad o £105 mewn amlen i'w roi i chi . Erbyn hyn mae'r arian wedi cyrraedd Llinos Roberts, trefnydd C.C. yny Gogledd. Diolch i Kelly a Meirion Parry.

## WYTHNOS CYMORTH CRISNOGOL 15- 21. Mai 2022


Yng nghefn gwlad Zimbabwe , mae saith o bob deg merch yn dibynnu ar ffermio i ennill bywoliaeth a chynnal eu teulu. Ond heb ddŵr glaw, ni all merched dyfu digon o fwyd.I Jessica Mwedzi mae sychder yn golygu fod pob dydd yn ymdrech i oroesi. Fel nifer o ferched yn Zimbabwe, mae'n gweithio'n galed ar ei fferm, and ni all bwyd dyfu o dir sych. 'Un flwyddyn, doedd dim glaw. Roedd yr haul crasboeth yn deifio fy nghnydau wrth iddynt dyfu. Roedd mor boenus a digalon.'Mae Jessica'n gaeth i' r argyfwng hinsawdd. Mae sychder yn gwneud merched yn fwy newynog, yn dlotach, ac yn dwyn oddi arnynt y cyfle i ennill bywoliaeth gydag urddas . Mae'n rhannu ei thristwch : 'Mae fy mhlant yn ysu i gael pryd da, and allai ddim ei roi. Rydym yn aml yn mynd i'r gwely ar stumog wag. Mae'n brifo eu hanfon i'w gwelyau yn newynnu'. Mae Jessica' n gwylio ei phlant yn chware y tu allan wrth i'r haul fachlud. Maent yn gafael dwylo, yn dawnsio a chanu. Mae'n gweld llygedyn o obaith y gall ddod dros yr amser caled hwn. Un diwrnod,bydd yn gallu gofalu am ei phlant gyda bwyd da a bywyd llawn, yn rhydd o newyn.Yr Wythnos Cymorth Cristnogol hon gallwch helpu'r fam gariadus hon i droi newyn yn obaith. Am fwy o wybodaeth ewch i




ww w.christianaid .org.uk Cewch fwy o fanylion am weithgareddau lleol yn agostach i'r dyddiad .

**Salem, Caernarfon**

**Canllawiau Covid-19 Ebrill 2022**




**1. Symtomau.**
Gofynnwn yn garedig i chi beidio dod i fewn i'r Capel os oes gennych symtomau allai olygu fod gennych covid -19. Gall y symtomau hyn gynnwys (ond nid yn gyfyngedig i): **gwres, peswch, byr eich anadl, dolur gwddw, cur pen, colli arogl/blas**.



**2.Cadw Pellter**

2.Nid oes gorfodaeth i gadw pellter yn y capel, ond mae'n arfer da i beidio eistedd yn rhy agos i'n gilydd!



**3.Gwisgo Mwgwd**

Nid oes gorfodaeth i chi wisgo mwgwd yn y capel, ond mae croeso i chi wneud hynny os ydych yn dymuno.



**Mae CAPEL SALEM, CAERNARFON ,**

**angen**

**CYNORTHWYWYR**

**Fedrwch chi roi eich gwasanaeth ?**

1 Dosbarthu gohebiaeth i'r aelodau. __________

2. Llywyddu oedfa'r Sul ? ___________

3. Ymuno efo'r rhai sy'n gofalu am adeiladau Salem ?___

4. Gofalu am aelodau sy'n byw yn yr un cylch a chi ?____

5. Cymeryd rhan yn oedfa'r Sul?____

6. Croesawu wrth y drws i oedfaon y Sul ?___

7. Gyda gwaith yr Ysgol Sul /Ieuenctid?___

8. Llinyn Arian a Safwe Salem ? ______

9. Gofalu a threfnu gweithgareddau cymdeithasol ? _______

10.Ochor dechnegol i weithgareddau'r eglwys e.e. Zoom?____

11. Gweddio dros fywyd yr eglwys – cylch gweddi/oedfaon myfyrdod a gweddi. ____

Enw ________________________________________

Cyfeiriad __________________________________

Rhif ffôn __________________ ebost _______________

Rhowch /danfonwch y ffurflen i'r gweinidogion :
jron.tabsalem@gmail.com

mereridnoddfasalem@hotmail.com